# Llwybr Datblygu'r Gymraeg

# 2023-24




Darlithydd Cymraeg:

**Bethan Griffiths**

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk


Darlith 2

Dydd Mawrth, 10$^{\text{fed}}$ o Hydref 2023


Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Nod ac amcanion

- Cwis Cynhesu – Hanes yr Iaith
- Cyflwyniad i'r Dystysgrif Sgiliau Iaith
- Adnoddau Defnyddiol
- Adolygu rhannau ymadrodd.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Cwis Cynhesu – Hanes yr Iaith Gymraeg

Kahoot!



Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Tystysgrif Sgiliau Iaith

*2023 – 2024*



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE



# BETH YW'R DYSTYSGRIF?

Mae myfyrwyr sydd â sgiliau dwyieithog yn fwy tebygol o gael swydd dda wrth raddio. Bydd ennill y Dystysgrif yn gymorth i chi wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol.

Os ydych yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru, mae'r Dystysgrif yn cynnig ffordd o ennill cymhwyster i gydnabod eich sgiliau yn y Gymraeg. Mae'n dystiolaeth o'ch gallu i gyfathrebu'n gywir, yn hyderus ac yn broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r asesiadau wedi eu cynllunio'n arbennig er mwyn rhoi prawf ar y sgiliau iaith fydd eu hangen arnoch wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau proffesiynol. Achredir y Dystysgrif gan CBAC.

# Pam cofrestru?

## Tystysgrif Sgiliau Iaith

### Pam ymgeisio?

- Cymhwyster ychwanegol i'r CV
- Dangos tystiolaeth o dy sgiliau iaith
- Codi hyder a gwella cyflogadwyedd

**Am fwy o wybodaeth...**

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

WWW.COLEGCYMRAEG.AC.UK/TSI

# Yr Asesu

**Y Cyflwyniad Llafar (Asesiad Ar-lein) 50%**
**(Dyddiad i'w gadarnhau)**

**Asesiad Ysgrifenedig 50%**

**8fed o Fai 2023**

# Graddau

## GRADDAU'R DYSTYSGRIF

Mae dwy ran i'r Dystysgrif, sef y Cyflwyniad Llafar a'r Arholiad Ysgrifenedig.

Mae pedwar canlyniad posibl ar gyfer y Dystysgrif:

- Rhagoriaeth
- Clod
- Llwyddo
- Methu.

Fel arfer, y trothwy llwyddo fydd 50% i bob cydran, sef y cyflwyniad llafar a'r arholiad ysgrifenedig. Gall yr union drothwyon ar gyfer y gwahanol raddau newid wrth i'r asesiadau gael eu dyfarnu.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn marc allan o 100 ar gyfer y ddwy gydran. Rhaid llwyddo yn y ddwy gydran i dderbyn tystysgrif.

# Sut i gofrestru?

https://colegcymraeg.ac.uk/forms/tystysgrif-sgiliau-iaith-prifysgol/






Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Adnoddau defnyddiol

## Apiau









http://www.canolfanpeniarth.org/CBAC

www.porth.ac.uk

www.colegcymraeg.ac.uk

www.geiriadur.net

http://www.geiriaduracademi.org

http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

# Cysgliad



- Gwirydd Sillafu a Gramadeg

Cysill™

- Casgliad o eiriaduron electronig

Cysgeir™

https://myfyrwyr.pcydds.ac.uk/wp-content/uploads/2019/03/Installing-Cysgliad-CYM.pdf

# Cyngor ar sut i ddefnyddio Offer iaith

- https://sway.office.com/DlCeeTQkGFkqp6HH?ref=Link



Go to this Sway

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Prif Sgrîn Cysgeir

Bocs Geiriau

Gair Blaenorol/Nesaf

Chwilio am air

Rhestr Hanes

Porwr Geiriau o'r Gair Hwn

Botwm Ymadroddion Cysylltiedig




Newid Iaith y Geiriadur

Rhestr Eiriau

# Y Botwm Pori




Mae'r ffenestr hon yn dangos y cysylltiadau rhwng geiriau, ac yn galluogi'r defnyddiwr i weld ymadroddion cysylltiedig a chwilio am gyfieithiadau ohonynt.

# Beth yw Cysill?

## Gwirio Sillafu, Gramadeg a Thesawrws

Mae **gwirydd sillafu** cyfrifiadurol yn gweithio drwy chwilio am eiriau unigol yn eich dogfen nad yw'n eu hadnabod - hynny yw, geiriau sy ddim yn ei eiriadur mewnol.

Ar ôl oedi ar air o'r fath, bydd y gwirydd sillafu'n awgrymu geiriau o'i eiriadur a all, o bosibl, gael eu cyfnewid am y gair dieithr.

Mae **gwirydd gramadeg** neu arddull yn ceisio adnabod cyfuniadau o nifer o eiriau sy'n dangos strwythur gramadegol neu strwythur arddull arbennig.

Yn y Gymraeg, er enghraifft, rhaid i ansoddair fel 'mawr' dreiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd unigol, fel 'cath'. 'Cath fawr' sy'n gywir ac nid 'cath mawr'. Cyn belled â bod y rhaglen gyfrifiadurol yn gallu adnabod y strwythur hwn yn gywir (sef ansoddair ar ôl enw benywaidd unigol), bydd yn gallu gwneud yn siwr bod yr ansoddair wedi'i dreiglo'n gywir.

# Defnyddio Cysill…

Ry'n ni'n gallu defnyddio Cysill mewn un o ddwy ffordd…

1. oddi fewn i'n rhaglen prosesu geiriau – Word /Outlook
2. drwy'r wefan www.cysill.com







Dydy Cysill ddim yn gweithio yn Word ar gyfrifiadur Mac yn anffodus

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

# Defnyddio Cysill…







Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith

CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

# Ap Treiglo…

- Ap treiglo (am ddim)




Nod Ap Treiglo ydy cynorthwyo siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wirio'r treigladau. Mae elfen chwilota'r ap dim ond yn cynnwys y geiriau hynny sy'n achosi i'r geiriau sy'n eu dilyn yn syth dreiglo. Felly nid yw'n cynnwys pob rheol treiglo yn y Gymraeg. Ond wrth ddefnyddio elfen adolygu yr ap, dylech allu dod o hyd i'r holl reolau fydd yn eich cynorthwyo i wybod pryd i dreiglo.
Wrth ddefnyddio'r ap hwn, dylech gofio rhai egwyddorion cyffredinol …

*** Dydy enwau priod (proper nouns) ddim fel arfer yn treiglo – i Dafydd**
*** Dim ond enwau lleoedd Cymraeg fydd yn treiglo – o Fryste, ond o Birmingham**
*** Fydd enwau sydd wedi eu benthyg o'r Saesneg ddim fel arfer yn treiglo e.e. dwy gêm, dau grŵp**

# Cysylltiadau Defnyddiol…

https://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/tiwtorial-cysgliad.php.cy

https://www.cysgliad.com/cysill/arlein/

https://www.cysgliad.com/cy/

https://myfyrwyr.pcydds.ac.uk/wp-content/uploads/2019/03/Installing-Cysgliad-CYM.pdf

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith | CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# To bach!

Mae To Bach yn rhaglen rhad ac am ddim sy’n gwneud y gwaith o osod acenion a nodau ar gyfer y Gymraeg yn ddidrafferth. Drwy ddefnyddio'r bysell Alt Gr mae modd gosod to bach ar ben y llafariaid (â, ê, î, ô, û, ŵ, ŷ) ac acenion amrywiol (á è ï ac ati).
https://www.interceptorsolutions.com/tobach

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Alt Gr | + | A | yn rhoi | â |
| Alt Gr | + | E | yn rhoi | ê |
| Alt Gr | + | I | yn rhoi | î |
| Alt Gr | + | O | yn rhoi | ô |
| Alt Gr | + | U | yn rhoi | û |
| Alt Gr | + | W | yn rhoi | ŵ |
| Alt Gr | + | Y | yn rhoi | ŷ |

Cofiwch hefyd newid iaith eich cyfrifiadur Windows i’r Gymraeg, mae’n galluogi’r to bach ac yn peidio â chywiro’r Saesneg yn awtomatig.

/office/language-accessory-pack-for-office-82ee1236-0f9a-45ee-9c72-05b026ee809f?ui=en-us&rs=en-us&ad=us

# Llyfrau defnyddiol



















Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Beth ydy rhannau ymadrodd?



Adolygu
Rhannau
Ymadrodd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Rhannau ymadrodd.

- Termau gramadegol sy'n ein helpu ni i wybod sut mae geiriau'n ymddwyn e.e. sut a pham maent yn treiglo, beth yw eu lleoliad mewn brawddeg a.y.y.b.
- Enghreifftiau: enw, berf



# YMARFER SYDYN



- Sawl rhan ymadrodd y gallwch chi feddwl amdanyn nhw?



Ysgrifennwch eich syniadau ar
**www.menti.com**
**3858 1861**

# ENW / ENWAU *NOUN/S*

*Gair sy'n cael ei roi ar rywbeth er mwyn ei adnabod a gwybod **beth** ydyw.*

Mae gan bob enw ffurf **unigol** a **lluosog** e.e. problem / problemau; plentyn / plant

Mae i bob enw yn y Gymraeg **genedl** h.y. mae pob enw naill ai yn **wrywaidd(eg)** neu'n **fenywaidd (eb)** e.e. y ward **hon**, y gwaith **hwn**.

Serch hynny, ceir rhai enghreifftiau sy'n gallu bod yn fenywaidd neu'n wrywaidd **(egb)** e.e. munud, llygad, cwpan.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# ENW / ENWAU *NOUN/S*

**enw priod** enw person, peth, iaith neu le arbennig e.e. William, Dafydd, Caerdydd, Ysgol y Wern, mis Mai, Y Pasg a.y.y.b.

Ceir **prif lythyren** ar ddechrau **enw priod** bob amser.

**enw torfol** enw ar gasgliad o bobl neu bethau e.e. tyrfa, haid

**enw diriaethol** enw ar rywbeth 'real' h.y rhywbeth y gallwn ni gyffwrdd ag e e.e. bwrdd, cadair

**enw haniaethol** enw ar rywbeth na allwn ni ei gyffwrdd e.e. hapusrwydd, cariad



# RHAGENW / RHAGENWAU

# *PRONOUN/S*




*Gair a ddefnyddir yn lle enw.*

e.e. fi, ti, fe, nhw, ninnau, hwn

Sylwch ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy frawddeg ganlynol:

Mae **Siân** yn hoff iawn o'i gwaith. (*enw)*

Mae **hi**'n hoff iawn o'i gwaith. *(rhagenw)*

# ANSODDAIR / ANSODDEIRIAU
# *ADJECTIVE/S*

*Gair sy'n disgrifio enw neu ragenw h.y. dweud **sut** beth ydyw.*

e.e. sefyllfa **anodd**

pryder **mawr**

prydau bwyd **prydlon**

merch **hapus**

Fel arfer yn y Gymraeg mae’r ansoddair yn dod **ar ôl** yr enw. Serch hynny mae rhai sy'n digwydd fynychaf **o flaen** yr enw (sylwer y ceir treiglad meddal **ar ôl** ansoddair)

e.e. **hen** wers

**priod** waith

**annwyl** ferch

**unig** gyfle

**hoff** liw



# CYSYLLTAIR / CYSYLLTEIRIAU

# *Conjunction/s*

*Gair sy'n **cysylltu** geiriau, cymalau neu frawddegau.*

e.e. trefniadau **a** chynlluniau
un **neu** ddau
Roedd John yn hwyr i'r gwaith **oherwydd** / **o achos** y ddamwain.
Aeth John yn ôl i'w sedd **ond** ni lwyddodd i gwblhau'r gwaith.
Mae hi'n brysur yma heddiw. Mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd. > Mae hi'n brysur yma heddiw **ac** mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd.



# ARDDODIAD/ARDDODIAID *PREPOSITION/S*




- <u>**Arddodiad / Arddodiaid**</u> *Preposition/s*
-
- *Gair sy'n dangos y berthynas rhwng un person neu beth a pherson neu beth arall. Yn aml, mae arddodiad yn disgrifio **ble mae** un peth mewn perthynas â rhywbeth arall.*
-
- e.e. Mae'r gwaith **ar** y ddesg.
- Mae'r disgyblion **yn** y dosbarth.
- Mae'r ffeiliau **wrth** y drws.

# <u>BANNOD (Y FANNOD)</u>
# *THE ARTICLE*

*Gair sy'n gwneud enw'n **benodol** yw bannod a cheir tair ffurf ar y fannod bendant yn y Gymraeg: **y, yr 'r** (sef **the** yn Saesneg). Ni cheir bannod amhendant yn y Gymraeg - h.y. **a** neu **an** yn Saesneg.*

e.e. **y** bobl

**yr** amser a'**r** ymdrech

Mae'**r** disgybl yn gweithio'n gyson.



# BERF/AU *VERB/S*

*Gair sy'n nodi **beth** sy'n cael ei wneud.*

*Mae berf yn cyflawni **tair** swyddogaeth - dangos **person** (fel arfer), **amser** a **gweithred**.*

e.e. **gwelais**

y weithred yw **gweld**

**fi** yw'r person

**yn y gorffennol** y digwyddodd hyn

Geiriau i'w cofio:

**cwmpasog (y ffurf hir)** y mae ef yn cerdded

**cryno (y ffurf fer)** cerdda ef

| Unsorted | | |
|---|---|---|
| eistedd | | rhedais |
| neidio | | eisteddais |
| rhedeg | | cerddais |
| cerdded | | neidiais |
| chwerthin | | gorweddais |
| taflu | | bwytais |
| bwyta | | chwerthais |
| gorwedd | | taflais |

# BERF/AU *VERB/S*




Ceir chwe pherson i bob berf:

| UNIGOL | LLUOSOG |
|---|---|
| 1. fi | 1. ni |
| 2. ti | 2. chi |
| 3. ef/hi | 3. nhw |



# GODDRYCH A GWRTHRYCH BERF

*SUBJECT AND OBJECT OF THE VERB*



**GODDRYCH** - yr un sy'n gwneud y weithred (*Subject*)

**GWRTHRYCH** - yr un sy'n dioddef y weithred (*Object*)

*Darllenodd y disgybl lyfr da ddoe.*

y disgybl - **goddrych** (yr un sy'n gwneud y weithred)

llyfr da - **gwrthrych** (yr un sy'n dioddef y weithred)

# YSGIFENNWCH AR EICH BYRDDAU GWYN BACH...



- Pa air yn y brawddegau sy'n dilyn yw'r gwrthrych?



# YSGIFENNWCH AR EICH BYRDDAU GWYN BACH…

- Pa air yn y brawddegau sy'n dilyn yw'r **goddrych**?

**Mae Alun yn mynd i'r siop**

# YSGIFENNWCH AR EICH BYRDDAU GWYN BACH…

- Pa air yn y brawddegau sy'n dilyn yw'r **goddrych**?

**Gwelodd y gath ddyn**

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# YSGIFENNWCH AR EICH BYRDDAU GWYN BACH...

- Pa air yn y brawddegau sy'n dilyn yw'r **goddrych**?

**Cafodd y llyfrau eu marcio.**

# BERFENW / BERFENWAU
# *INFINITIVE/S / VERB-NOUN/S*

*Dyma ystyr neu enw'r ferf - enw'r gweithgaredd yn unig a geir*
e.e. ysgrifennu, darllen, gobeithio, nodi

Mae'r berfenw'n ddau air yn Saesneg h.y. **to +** y ferf e.e. to say, to think, to believe a.y.y.b. ond yn y Gymraeg, dim ond y berfenw ei hun sydd ei angen, e.e. dweud, meddwl, credu.

Y berfenw sydd i'w gael yn y geiriadur.




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# PA UN YW'R BERFENW?

ysgrifennu

cafodd

# PA UN YW'R BERFENW?

dawnsiaf

gweld

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# PA UN YW'R BERFENW?

eistedd

cer

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# PA UN YW'R BERFENW?

bod

byddaf

# PA UN YW'R BERFENW?

cerddais

mynd

# PA UN YW'R BERFENW?

rhedeg

rhedwyd

# PA UN YW'R BERFENW?

aroglais

arogli

# PA UN YW'R BERFENW?

beirniadu

beirniadir

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# ADFERF / ADFERFAU
# *ADVERB/S*

*Gair sy'n disgrifio **berf, ansoddair neu adferf arall.** Maent yn ateb y cwestiynau:*

***Sut? Ble? Pryd? Pam?***

penderfynwyd **yn unfrydol** (ychwnaegu at ein gwybodaeth am y ferf "penderfynu")

yn **eithaf** pwysig (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr ansoddair "pwysig")

unwaith **eto** (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr adferf "unwaith")



# ADFERF / ADFERFAU
# *ADVERB/S*

Gellir ffurfio adferf drwy roi **yn** o flaen ansoddair

e.e Gweithiodd y pennaeth **yn gyflym**.

Mae **cyflym** yma yn disgrifio **gweithiodd**,

ac yn ateb y cwestiwn: **Sut?**

Cyrhaeddodd Huw y cyfarfod **yn hwyr.**

Mae **hwyr** yma yn disgrifio **cyrhaeddodd,**

ac yn ateb y cwestiwn: **Pryd?**

# Tasg – Llenwi'r Bylchau

| **ENW**<br>eb /eg / egb / ell<br>n.f / n.m / n.m.f / n.pl | **ANSODDAIR**<br>a.<br>a. | **ADFERF**<br>adf.<br>ad. | **BERFENW**<br>be.<br>v. |
|---|---|---|---|
| **cymdeithas** | | | |
| | **cyflym** | | |
| | | | **trefnu** |
| **cost** | | | |
| | | **yn flasus** | |
| | | | **arbenigo** |
| | **effeithiol** | | |
| **penderfyniad** | | | |
| | | **yn weithgar** | |
| | | | **gwybod** |




Diwrnod Shwmae Su’mae, **15fed o Hydref**, 2023!

Beth fyddch chi’n ei wneud o ddathlu?

[http://www.shwmae.cymru/](http://www.shwmae.cymru/)